

TEMPLED GRANT DYSGU PROFFESIYNOL/PROFESSIONAL LEARNING GRANT TEMPLATE

Ysgol/School	Llanfawr.
Swm a ddyrannwyd/ Allocated Sum	£11,938

Amlinelliad o'r bwriadau/Outline of intentions	<ul style="list-style-type: none"> * Bwriad yr ysgol yw defnyddio'r grant yn effeithiol i ddatblygiad Proffesiynol aelodau staff dysgu a chymhorthyddion. * Defnyddir y grant i aelodau staff fynychu cyrsiau penodol sydd yn addas i'w datblygiad proffesiynol e.e WELLCOMME, Makaton, ELSA, Nurture Classroom, Saffmeds a Talkabout. * Mae'r aelodau staff penodedig eisoes yn defnyddio'r cymhwyster i redeg sesiynau (uchod) gyda disgyblion sydd wedi eu targedu yn dilyn dadansoddiad data a thracio trylwyr yr ysgol. * Mae'r aelodau staff hyn gyda amserlen penodol, lle caiff eu rhyddhau o'r dosbarth i gynnal sesiynau. * Mae amser wedi ei ddyrannu er mwyn caniatáu'r staff i greu data a dadansoddi'r data.
---	---

Yr Effaith a'r Canlyniadau a Ddisgwylir/ Expected Impact and Outcomes	<ul style="list-style-type: none"> * Aelodau staff yn magu hyder i redeg sesiynau gyda grwpiau o ddisgyblion. * Mae'r disgyblion / grwpiau targed yn mwynhau'r sesiynau ac yn magu hyder i drafod eu teimladau mewn awyrgylch hapus a chartrefol. * Mae'r sesiynau Talkabout am godi ymwybyddiaeth yr ysgol o bryderon sydd gan ddisgyblion boed yn yr ysgol neu yn y cartref. Mae hyn yn caniatáu i ni fel ysgol olygu ein cynlluniau, a chodi ymwybyddiaeth yr UTRh o bryderon cartref disgyblion. * Gan fod y disgyblion yn codi ymwybyddiaeth y staff o bryderon gartref, fydd y pryderon hyn yn cael eu bwydo i'r system 'My Concern', sydd wedyn yn cyrraedd sylw Tim Amddiffyn Plant yn yr ysgol yn syth. Fel ysgol gyfan, bum yn teimlo fod hyn yn ffordd effeithiol iawn o dderbyn pryderon gan ddisgyblion, gan fod y disgyblion ddim yn cael cyfleoedd fel hyn oni bai am sesiynau Talkabout. * Bydd aelodau staff yn dadansoddi data ac yn rhannu eu canfyddiadau gyda gweddill y staff mewn cyfarfodydd staff. Yn sicr bydd hyn yn codi hyder y staff, ac yn caniatáu bod holl staff yr ysgol yn ymwybodol o waith pob unigolyn. * Yn yr Adran Babanod, mae Makaton wedi datblygu hyder disgyblion i gychwyn sgwrs yn y Gymraeg ac i ddefnyddio'r iaith yn fwy rheolaidd. Mae'r unigolion oedd wedi mynychu'r cwrs Makaton wedi rheadru a chynnal cyrsiau o fewn yr ysgol i ddysgu gweddill y staff.
--	---

Gwerthuso/Evaluation

<p>Beth sydd wedi gweithio'n dda/What worked well</p>	<ul style="list-style-type: none">* Credaf yn gryf , fod y sesiynau Talkabout yn gyswllt cryf i godi ymwybyddiaeth y Swyddog Lles ar UTRh o bryderon disgyblion o ran lles.* Mae Makaton yn cael ei ddefnyddio bellach fel arf cryf sy'n gymorth mawr i ddatblygu'r iaith Gymraeg ar lafar o fewn yr ysgol. Mae'r disgyblion yn dysgu Makaton drwy'r Gymraeg, ac o ganlyniad maent yn dysgu iaith drwy ddull o fwynhad.* Mae'r cyfrifoldebau newydd ar y cymhorthyddion i redeg sesiynau, wedi rhoi profiad newydd iddynt gasglu data a ddadansoddi'r data. Mae hyn yn rhan holl bwysig o'u Rheoliad Perfformiad.* Yn dilyn y cyrsiau hyn, mae aelodau staff yn holi am gael mynychu cyrsiau eraill er mwyn datblygiad proffesiynol. Braff iawn yw gweld hyder staff yn cynyddu, ond hefyd eu bod yn gweld gwerth yn yr ymyriadau.
<p>Yr Effaith a'r Canlyniadau/ Impact and Outcomes</p>	<ul style="list-style-type: none">* Gweler tracio ysgol, fod y grwpiau targed wedi gwella ei safonau gwaith* Gweler fod presenoldeb sawl disgybl wedi cynyddu.
<p>Y Cam Nesaf/Next stage</p>	<ul style="list-style-type: none">* Gan fod yr ymyriaeth yn hynod o effeithiol, rydym yn gobeithio cael fwy o aelodau staff ar y cyrsiau uchod.